**Ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar hwyluso a hyrwyddo cymwysterau cyfrwng Cymraeg**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ofyn i bob cyrff dyfarnu gyhoeddi datganiad polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg?**

Bydd ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu gyhoeddi datganiad polisi ynghylch darparu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn darparu gwell eglurder i ganolfannau a dysgwyr.

Nid yw'n glir a oes disgwyl i gyrff dyfarnu restru pa gymwysterau penodol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio. Gwyddom fod eisoes ofyniad i gyrff dyfarnu gynnwys gwybodaeth gywir a chyfredol am eu cymwysterau ar gronfa ddata Cymwysterau Cymru, gan gynnwys manylion am gyfrwng iaith y cymwysterau. Mae'r gofynion ar gyfer Amodau D9.1 a D9.2 yn nodi y dylid enwi pa agweddau ar y cymwysterau fydd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cymryd y bydd hefyd felly ddisgwyl i gyrff dyfarnu gyhoeddi rhestr gyfredol o'r cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?

2. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ofyn i gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg i hyrwyddo argaeledd y cymwysterau hynny a hwyluso mynediad iddyn nhw?**

Mae'r gofyniad i gyrff dyfarnu hyrwyddo argaeledd a hwyluso mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn hollbwysig. Rydym o'r farn fod gosod gofynion o'r fath am fod o gymorth i ganolfannau sy'n cynnig cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly hefyd ddysgwyr cyfrwng Cymraeg. Fe fydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygu gwell dealltwriaeth o ble mae angen datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, ac o bosib bydd yn annog cyrff dyfarnu i fod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu eu darpariaeth ymhellach. Credwn felly fod cyflwyno'r gofynion hyn ynghylch hyrwyddo a hwyluso mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn ddatblygiad pwysig a sylweddol.

3. **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno gofynion sylfaenol rydyn ni yn eu hystyried yn angenrheidiol i gorff dyfarnu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amodau arfaethedig?**

Rydym yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno gofynion sylfaenol, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn gosod disgwyliadau clir ar gyrff dyfarnu. Credwn fod yr amodau, y gofynion a'r canllaw yn llwyddo i gydbwyso'n effeithiol rhwng gosod gofynion penodol ar gyrff dyfarnu tra ar yr un pryd beidio â rhagnodi yn ormodol hyd a lled y gweithgareddau y gall cyrff ymgymryd â hwy.

Un cwestiwn cyffredinol ydi sut bydd Cymwysterau Cymru yn monitro ac yn cadw trosolwg ar weithgareddau hyrwyddo a hwyluso cyrff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys eu cydymffurfiaeth â'r gofynion sylfaenol, ond hefyd sut y byddir yn cadw trosolwg o'r pethau ychwanegol y mae rhai cyrff yn eu gwneud a allai fod yn ddefnyddiol o safbwynt rhannu arferion da. Gwyddom fod gofynion penodol ar gorff dyfarnu i adolygu ac adrodd y graddau y mae'n cydymffurfio â'r amodau a'r gofynion, ond fe fyddai'n ddefnyddiol deall rôl Cymwysterau Cymru yma hefyd. Rydym yn derbyn efallai nad oes angen cynnwys hyn o fewn y canllaw ei hun, ond hoffem ddeall mwy am hyn, yn enwedig gan fod gan y Comisiynydd ddyletswyddau tebyg o ran monitro cydymffurfiaeth a rhannu arferion da mewn perthynas â safonau'r Gymraeg.

4. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gynnwys y gofynion hyn fel rhan o'n Hamodau Cydnabod Safonol?**

Rydym yn cytuno bod gosod yr Amodau a'r Gofynion arfaethedig yn yr Amodau Cydnabod Safonol yn rhoi mwy o amlygrwydd a phwyslais i'r Gymraeg o fewn y fframwaith rheoleiddio. Rydym felly yn croesawu'r penderfyniad hwn.

Fel mae'r ddogfen ymgynghori yn ei nodi, mae gweddill gofynion perthnasol o safbwynt y Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg. Un canlyniad i osod yr Amodau a'r Gofynion newydd yn y prif lyfr rheolau yw bod rhywfaint o anghysondeb yn y pwyslais sy'n cael ei roi ar wahanol ofynion o safbwynt y Gymraeg, a hefyd bod rhywfaint o orgyffwrdd yng nghynnwys gwahanol ddogfennau. Er enghraifft, mae gofynion 16.1-16.4 yn y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg yr un mor allweddol â'r Amodau a'r Gofynion arfaethedig ynghylch hyrwyddo a hwyluso cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mewn byd delfrydol credwn y dylai'r gofynion ynghylch sicrhau argaeledd cymwysterau cyfrwn Gymraeg (gofynion 16.1-16.4 y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg) hefyd gael eu cyflwyno yn yr Amodau Cydnabod Safonol (o bosib yn adran G). Rydym yn deall efallai bod rhesymau teilwng iawn dros beidio gwneud hyn, er enghraifft bod gofynion y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg yn gymhwyster benodol, ac felly ddim yn addas i'w cynnwys yn yr amodau safonol. Er hyn, mae gofynion 16.1-16.4, gyda'i gilydd, yn berthnasol i bob cymhwyster ac i bob corff dyfarnu, ac fe fyddai cael y rhain yn y prif lyfr rheolau o bosib yn cyfleu neges gliriach a mwy cadarn i gyrff dyfarnu.

Mae hefyd yn ymddangos fod yna rywfaint o orgyffwrdd ac ail-adrodd rhwng cynnwys y canllaw newydd (adran 3 ar fynd tu hwnt i'r gofynion), y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg (yr adran ar y cynnig rhagweithiol), a'r Canllawiau i gyrff dyfarnu ar ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg (adran 3 yn benodol).

Nid yw'r sylwadau uchod o reidrwydd yn broblem, ond hoffem wybod a oes ystyriaeth wedi bod i osod y gwahanol amodau, gofynion a chanllawiau mewn ffordd sydd yn fwy cydlynus, cyson, ac eglur i gyrff dyfarnu.

5. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig ar gyfer cyfnod cychwynnol o 12 mis i gyrff dyfarnu sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r amodau a'r gofynion arfaethedig?**

Mae'n rhesymol rhoi cyfnod amser digonol i gyrff dyfarnu sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn llawn â'r amodau a'r gofynion arfaethedig. Mae'r Amodau a'r Gofynion newydd yn gofyn am gryn waith cynllunio a gweithredu, ac mae'n bwysig bod gan gyrff dyfarnu amser digonol i wneud hyn yn drylwyr.

6. **Oes meysydd nad ydyn ni wedi eu cynnwys yn ein canllawiau arfaethedig yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys?**

Mae dau fater lle credwn bod angen rhagor o eglurder a manylder yn y canllawiau arfaethedig:

**Cynlluniau Iaith Gymraeg a'r Cynnig Cymraeg**

Mae Adran 3 y canllaw yn trafod sut gall Cyrff Dyfarnu fynd y tu hwnt i ofynion yr amodau newydd. Yn gyffredinol rydym yn croesawu'r cynnwys yma, ac yn benodol y cyfeiriadau at gynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd. Er hyn, dylai'r adran yma adlewyrchu'r ffaith y gallasai rhai cyrff sgiliau/cymwysterau fod â Chynllun Iaith Gymraeg, ac felly nad datblygu'r Cynnig Cymraeg yw'r trywydd priodol.

Mae rhai cyrff sgiliau/cymwysterau dan ddyletswydd statudol Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg. Mae rhai cyrff eraill wedi paratoi cynllun iaith Gymraeg ar sail wirfoddol. Barn y Comisiynydd yw na ddylai'r cyrff sydd â Chynllun Iaith Gymraeg (boed yn statudol neu'n wirfoddol) weithio tuag at y Cynnig Cymraeg. I'r mwyafrif o gyrff sgiliau/cymwysterau sydd heb gynllun iaith Gymraeg, rydym yn cytuno mai datblygu'r Cynnig Cymraeg yw'r trywydd priodol.

Mae angen felly i'r adran hon adlewyrchu'r sefyllfa uchod ac mae'n bosib y gellid gwneud hyn drwy gynnwys un pwynt/brawddeg ychwanegol.

**Perthnasedd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a'r egwyddor o alluogi dewis iaith asesu**

Mae safonau 90 - 90A o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn gosod gofynion ar golegau / prifysgolion i alluogi myfyrwyr i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg i'w asesu petaent yn dymuno hynny, ac i sicrhau nad yw gwaith a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn Saesneg.

Yn dilyn trafodaeth flaenorol rhwng y Comisiynydd a Chymwysterau Cymru, cadarnhawyd nad yw'r cyrff dyfarnu yn darparu ar ran y colegau/prifysgolion wrth gynnal asesiadau, ond yn hytrach bod y sefydliad addysg yn darparu ar ran y corff dyfarnu yn y sefyllfa benodol hon. O safbwynt safonau'r Gymraeg, nid oes felly ofyniad cyfreithiol i gyrff dyfarnu alluogi i waith ysgrifenedig gael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn, credwn fod lle i'r canllawiau arfaethedig bwysleisio'r egwyddor sy'n sail i'r safonau uchod, sef y dylid ceisio galluogi dysgwyr gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Rydym yn derbyn bod trafod yr egwyddor hon yn mynd tu hwnt i ffocws penodol y canllawiau dan sylw, sef hyrwyddo a hwyluso mynediad at gymwysterau sy'n cael eu cynnig yn Gymraeg. Gwyddom hefyd fod materion ynghylch asesu yn ddwyieithog a datblygu elfennau o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael sylw yn y Canllawiau i gyrff dyfarnu ar ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn, credwn fod lle yma i groesgyfeirio ac i bwysleisio bod asesu yn Gymraeg yn gallu bod yn ehangach na dim ond y cymwysterau hynny a gynigir yn Gymraeg. Hynny yw, dylid annog cyrff dyfarnu nid yn unig i hyrwyddo a hwyluso mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg, ond hefyd unrhyw gyfleoedd i gyflwyno elfennau o gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y cynllun Cynnig Cymraeg a phwysigrwydd egwyddor galluogi myfyrwyr i gyflwyno gwaith yn Gymraeg i'w asesu. Nid yn unig byddai hyn yn gam pwysig ymlaen i hwyluso'r broses o asesu trwy'r Gymraeg i sefydliadau megis y Colegau yng Nghymru, ond hefyd yn galluogi cyrff dyfarnu i ehangu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gam wrth gam.

I gloi felly credwn fod cyfle i ymhelaethu ar yr hyn sydd eisoes yn adran 3.4 y canllaw drafft, gan fanylu sut y gall cyrff dyfarnu fynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol drwy hyrwyddo a hwyluso asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylid nodi hefyd bod rhai o’r dolenni yn y canllaw cyfrwng Cymraeg yn agor tudalennau/dogfennau cyfrwng Saesneg.

7. **Rhowch unrhyw sylwadau ar yr effeithiau ar y Gymraeg sy’n cael eu nodi? Sut allai effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg gael eu cynyddu, neu sut mae modd lleihau effeithiau negyddol? Oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydyn ni wedi eu nodi? Os felly, beth ydyn nhw?**

Fel y gwyddoch, safbwynt y Comisiynydd yw y dylai’r holl gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru fod ar gael yn ddwyieithog. Mae ffordd bell i fynd er mwyn sicrhau fod yr egwyddor hon yn cael ei bodloni. Rydym yn derbyn fod gan Gymwysterau Cymru strategaeth ar gyfer ehangu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ac mae’r cynigion sy’n sail i’r ymgynghoriad hwn yn cyfrannu’n sylweddol at y gwaith hwn. Er hyn, mae wastad potensial i wneud mwy ac i godi’r disgwyliadau a’r gofynion ar gyrff dyfarnu, a chredwn y bydd angen adolygu’r amodau a’r gofynion hyn yn barhaus. Mae hyn yn arbennig o wir er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn rheoleiddio cymwysterau yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach ym maes addysg a’r Gymraeg.